OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 995

# Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009

## RHAN 1

Darpariaethau rhagarweiniol

**Yr awdurdodau gorfodi mewn achosion eraill**

**11.**—(1) Os yw'r difrod wedi'i achosi gan weithgaredd nad yw'n ofynnol cael trwydded neu gofrestriad ar ei gyfer o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007, gorfodir y Rheoliadau hyn yn unol â'r tabl canlynol.

| *Y math o ddifrod amgylcheddol* | *Man y difrod* | *Yr awdurdod gorfodi* |
|---|---|---|
| Difrod i ddŵr— | | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Difrod i r ywogaethau a warchodir neu gynefinoedd naturiol neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig— | tir | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| | dŵr ond nid yn y môr[(1)] | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| | y môr | — os yw'r difrod oherwydd gweithgaredd a awdurdodwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth yr Amgylchedd; |
| | | — fel arall, Gweinidogion Cymru |
| Niwed i dir— | | Yr awdurdod lleol |

(1) Mae “môr” yn cynnwys—

(a) unrhyw fan sydd dan y dŵr adeg llanw uchaf cymedrig y gorllanw; a

(b) pob un o'r canlynol, i'r graddau y mae'r llanw'n llifo adeg llanw uchaf cymedrig y gorllanw—

(i) pob aber neu forgainc; a

(ii) dyfroedd unrhyw sianel, cilfach, bae neu afon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol eu natur i awdurdod gorfodi ynghylch cyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i awdurdod gorfodi gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo o dan y Rheoliadau hyn.